Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar: Pwysigrwydd ansawdd

## Briff Ymchwil

Gorffennaf 2019

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6291**
E-bost: **Sian.Thomas@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**


# Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar: Pwysigrwydd ansawdd

## Briff Ymchwil

Gorffennaf 2019


**Awduron:**
David Dallimore



**Trosolwg o'r papur:**
Dyma'r ail bapur briffio mewn cyfres sy'n cynnig canllaw cyflym ar addysg a gofal plentyndod cynnar (ECEC). Yng nghyd-destun tystiolaeth ryngwladol, mae'n ceisio ystyried beth yw addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd, sut y mae angen trefnu addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd, a sut y mae'r polisïau, y ddarpariaeth a'r arferion cyfredol yng Nghymru yn adlewyrchu hyn.



Lluniwyd y papur briffio hwn gan Dr David Dallimore o Ysgol y Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Bangor fel rhan **Gynllun Cymrodoriaeth Academaidd Ymchwil y Senedd** i gynorthwyo Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt graffu ar y ddarpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar.

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod cefnogaeth Prifysgol Bangor a alluogodd Dr Dallimore i gymryd rhan yn y gymrodoriaeth hon.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **1**

**Beth yw ystyr ansawdd?** ........ **2**

**Darpariaeth o ansawdd** ........ **3**

Mesur ansawdd ........ 3

Ansawdd staff ........ 5

Cynnwys, Dulliau ac Arferion Dysgu ........ 6

**Strwythurau sefydliadau** ........ **8**

Integreiddio ‘Gofal’ ac ‘Addysg’ ........ 8

Integreiddio Gweinyddol ........ 10

Gwasanaethau Preifat, Gwirfoddol a Chyhoeddus ........ 10

Gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau wedi’u targedu ........ 11

**Casgliad: Prif egwyddorion fframwaith ansawdd** ........ **13**

Deunydd darllen a argymhellir: ........ 14



# Cyflwyniad

Addysg a gofal plentyndod cynnar (ECEC) yw’r term sy’n cael ei ddefnyddio’n helaeth i ddisgrifio unrhyw drefniant a reoleiddir sy’n darparu addysg a gofal i blant o’u genedigaeth hyd at oedran ysgol gynradd gorfodol.

Mae bron yr holl waith ymchwil a wnaed yn rhyngwladol dros y degawdau diwethaf wedi dangos pa mor bwysig yw ansawdd addysg a gofal plentyndod cynnar wrth hyrwyddo datblygiad gwybyddol, datblygiad corfforol a datblygiad emosiynol a chymdeithasol plant, yn enwedig y rhai o deuluoedd difreintiedig.

Yn y papur briffio hwn, rydym yn adolygu’r dystiolaeth er mwyn trafod cwestiynau ynghylch ansawdd, gan ystyried yr hyn y mae’r ymchwil yn ei ddweud wrthym am ein canfyddiad o ansawdd; y strwythurau sydd eu hangen i gefnogi ansawdd; y prosesau sydd eu hangen i sicrhau ansawdd; y math o amgylchedd polisi lle gall addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd ffynnu; a pherthynas hyn oll â’r sefyllfa bresennol yng Nghymru.

Mae lincs i astudiaethau ymchwil penodol wedi’u cynnwys yn y testun, ac mae rhestr ddarllen fer i’w gweld ar ddiwedd y papur hefyd.

# Beth yw ystyr ansawdd?

Mae'r rhan fwyaf o wledydd datblygedig bellach yn cydnabod bod darpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel yn arwain at ganlyniadau o ansawdd uchel – yn enwedig i blant sydd o dan anfantais. Ond er bod dogfennau polisi yn nodi'n aml fod 'ansawdd' yn bwysig, anaml y caiff ei ddiffinio, os o gwbl.

Mae'r diffyg diffiniad yn awgrymu bod fformiwla wedi'i chytuno eisoes ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar llwyddiannus – ond nid yw hynny'n wir. Fel y trafodwyd ym **mhapur briffio** cyntaf y gyfres hon, mae'r gwerthoedd a'r credoau sydd gan bobl ynglŷn â phlentyndod mewn gwahanol wledydd yn golygu bod ansawdd addysg a gofal plentyndod cynnar yn gysyniad cymharol a ddiffinnir yn wahanol yn dibynnu ar y cyd-destun.

> "Defining quality should be a dynamic, continuous and democratic process. A balance needs to be found between defining certain common objectives, applying them to all services, and supporting diversity between individual services." **Y Comisiwn Ewropeaidd, 2014**

Cymhlethdod pellach yw'r ffaith bod ansawdd yn edrych yn wahanol gan ddibynnu ar eich safbwynt. Mae grŵp amrywiol o randdeiliaid addysg a gofal plentyndod cynnar yn cynnwys rhieni, ymarferwyr, gwleidyddion, comisiynwyr a'r plant eu hunain. Mae gan bob un farn wahanol ar sut y maent yn canfod ac yn profi ansawdd. Mae **gwaith ymchwil** sy'n trafod y mater yn awgrymu mai'r unig ffordd o sicrhau diffiniad cywir o ansawdd yw pe bai'r holl bartïon hyn yn cytuno ar ddehongliad.

Serch hynny, mae elfennau o ansawdd sy'n cael eu hystyried yn aml mewn astudiaethau sy'n cymharu gwahanol ddulliau o ran addysg a gofal plentyndod cynnar. Mae'r rhan fwyaf o'r astudiaethau hyn yn defnyddio dull 'system gyfan', gan awgrymu bod pob agwedd ar addysg a gofal plentyndod cynnar yn cael ei harchwilio, o ansawdd y rhyngweithio rhwng plant ac oedolion i'r systemau polisi sy'n nodi sut y caiff y ddarpariaeth ei threfnu.

**Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar: Pwysigrwydd ansawdd:** Briff Ymchwil

# Darpariaeth o ansawdd

Er nad oes yna'r un cysyniad y cytunwyd arno'n rhyngwladol o ran ansawdd addysg a gofal plentyndod cynnar, profwyd bod rhai mesurau cyffredin yn helpu i greu a sicrhau ansawdd uchel. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau sy'n effeithio ar *strwythur* y ddarpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar, ansawdd y *prosesau* a ddefnyddir mewn lleoliadau a *chanlyniadau'r* ddarpariaeth.

- **Ansawdd strwythurol** – mae hyn yn cynnwys mesurau fel nifer y staff sydd â chymwysterau da; sut y mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio; cymorth ariannol a diogelwch y lleoliad; y gymhareb rhwng staff a phlant; trefniadau i sicrhau bod yr holl blant yn cael eu trin yn deg ac yn unol â'u hanghenion unigol; a'r adnoddau ffisegol i fodloni gofynion iechyd a diogelwch darparu gofal ac addysg i blant ifanc.
- **Ansawdd prosesau** – mae hyn yn edrych ar arfer o fewn lleoliad addysg a gofal plentyndod cynnar - yn aml mae'n cynnwys rôl chwarae yn y cwricwlwm; y berthynas rhwng darparwyr a theuluoedd plant; perthnasau a rhyngweithio rhwng staff a phlant, ac ymhlith plant; i ba raddau y darperir gofal ac addysg mewn ffordd integredig; sut y caiff rhieni eu cynnwys yng ngwaith lleoliad addysg a gofal plentyndod cynnar ac arferion pedagogaidd staff o ddydd i ddydd.
- **Ansawdd canlyniadau** – mae hyn yn canolbwyntio ar y manteision i blant, teuluoedd, cymunedau a chymdeithas. Pan fo'r manteision hyn yn ymwneud â chanlyniadau plant, maent yn aml yn cynnwys mesur datblygiad emosiynol, moesol, meddyliol a chorfforol plant; sgiliau cymdeithasol plant a sut y maent yn cael eu paratoi ar gyfer dysgu pellach a bywyd fel oedolion; iechyd plant a pha mor barod ydynt ar gyfer yr ysgol.

Er y gellir edrych ar bob maes ansawdd yn annibynnol, gyda'i gilydd maent yn ffurfio dull cytbwys o wella ansawdd yr addysg a gofal plentyndod cynnar a ddarperir.

## Mesur ansawdd

Mewn llawer o wledydd, caiff ansawdd addysg a gofal plentyndod cynnar ei fesur drwy werthusiadau ***allanol*** sy'n darparu gwybodaeth am y lleoliad i lunwyr polisi a'r cyhoedd. Mae ansawdd y gwasanaeth yn aml yn cael ei fesur yn erbyn set o ddangosyddion – fel y **Safonau Gofynnol Cenedlaethol yng Nghymru** – yn cael eu hasesu gan arolygwyr a'u hategu gan reoliadau. Mae safonau o'r fath yn aml yn cael eu gosod ar sail dangosyddion 'strwythurol', fel cymarebau rhwng staff a phlant,

gofod dan do/awyr agored, lefelau cymwysterau staff ac ati. Mewn gwledydd – gan gynnwys Cymru – sydd ag addysg a gofal plentyndod cynnar 'ar wahân', mae gwahanol safonau ar gyfer gwahanol leoliadau neu ar gyfer gwahanol grwpiau oedran o blant. Ar y llaw arall, mewn gwledydd ag addysg a gofal plentyndod cynnar 'integredig', defnyddir yr un safonau ym mhob lleoliad ac ar draws yr ystod oedran blynyddoedd cynnar.

Mae safonau cenedlaethol ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar yn gyffredin ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyffredinol. Yng ngwledydd Sgandinafia, mae'r gwaith o fonitro ansawdd gwasanaeth yn aml yn cael ei ddatganoli i awdurdodau lleol ac mae mwy o ffocws ar hunanasesu drwy gynnwys y rheolwyr a'r ymarferwyr eu hunain. Defnyddir sawl dull, gan gynnwys arsylwadau, cyfweliadau, graddfeydd, rhestrau gwirio, ac arolygon i lunio adroddiad gwerthuso blynyddol. Yn **Korea**, sefydlwyd grwpiau monitro rhieni i ymweld â chanolfannau gofal plant, arsylwi a monitro gweithgareddau parhaus a darparu argymhellion polisi i lywodraeth leol.

Yn aml, gellir trefnu gwerthusiadau ***mewnol*** ar sail cynlluniau 'sicrwydd ansawdd' hunanasesu neu ddefnyddio systemau graddio, fel y raddfa sy'n sgorio amgylchedd babanod/plant bach (ITERS) neu raddfa sgorio amgylchedd y blynyddoedd cynnar (ECERS). Mae'r rhain yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar ansawdd, gan gynnwys safonau a/neu reoliadau yn ogystal ag ansawdd neu berfformiad staff. Maent yn well am nodi elfennau o ansawdd y 'broses' fel dwyster ac ansawdd rhyngweithio rhwng oedolion a phlant, ond maent wedi cael eu **beirniadu** hefyd am eithrio rhai rhanddeiliaid gan gynnwys rhieni a chymunedau lleol.

Ar gyfer plant sy'n derbyn addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwerthuso mewnol drwy Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar a **Phroffil y Cyfnod Sylfaen**. Er mai dim ond at blant 3 -7 oed y mae wedi'i anelu, fe'i cynlluniwyd i gyfateb ag asesiadau a gynhaliwyd gan weithwyr iechyd proffesiynol i gefnogi'r gwaith o nodi oedi datblygiadol posibl mewn plant iau yn gynharach.

Er bod gwerthusiadau gwasanaeth yn cael eu hystyried yn rhan bwysig o archwilio ansawdd, cydnabyddir nad ydynt yn ddigon i gefnogi pob agwedd ar addysg a gofal plentyndod cynnar a llywio gwelliant o ran ansawdd ar eu pen eu hunain.

**Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar: Pwysigrwydd ansawdd:** Briff Ymchwil

## Ansawdd staff

Mae'r cymwysterau a ddelir gan weithwyr addysg a gofal plentyndod cynnar a'r gymhareb rhwng staff a phlant yn cael eu defnyddio'n aml fel mesur i asesu ansawdd

Un o brif ganfyddiadau'r **gwaith ymchwil a wnaed yn y DU** dros y degawd diwethaf yw bod lleoliadau addysg a gofal plentyndod cynnar lle y mae gan staff gymwysterau uwch (a ddiffinnir fel arfer fel lefel gradd berthnasol neu uwch) yn cael sgoriau uwch o ran ansawdd.. Hyd yn oed os nad oes gan y rhan fwyaf o staff lawer o gymwysterau, maent yn elwa ar bresenoldeb cydweithiwr sydd wedi'u hyfforddi i lefel uchel.

Dyma'r model a ddilynir gan y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau a gynhelir (h.y. ysgolion) lle mae athrawon yn cael eu cefnogi gan ymarferwyr ychwanegol llai cymwys. Fodd bynnag, pan ddarperir addysg a gofal plentyndod cynnar – gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen – mewn lleoliadau nas cynhelir, mae gan staff **lai o gymwysterau** fel arfer, ac nid yw'n orfodol bod yna arweinyddiaeth ar lefel uwch[1].

Unwaith eto, yn ôl y **gwaith ymchwil,** mae pwysigrwydd ymarferwyr a'r arian a fuddsoddir ynddynt yn dibynnu ar y farn gyffredinol ar blentyndod. Mewn gwledydd sydd ag addysg a gofal plentyndod cynnar integredig, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn raddedigion ar gyflog sy'n gwneud y proffesiwn yn ddeniadol ac yn cynnig statws cymdeithasol uwch.

Fodd bynnag, mae yna hefyd **dystiolaeth** nad y cymwysterau sy'n cael effaith ar ganlyniadau plant, ond gallu'r staff i greu amgylchedd o ansawdd uchel. Wrth reswm, mae hyn yn anodd pan fo staff 'gofal' yng Nghymru, o gymharu ag athrawon a'r **cyd-destun rhyngwladol,** yn cael eu hyfforddi'n wael a'u talu'n wael. Mae'n anodd recriwtio digon o staff sy'n siarad Cymraeg ac mae trosiant uchel yn y sector, sy'n golygu bod rhwystrau i ddatblygu'r arferion sydd eu hangen yn ôl y gwaith ymchwil.

Gan gydnabod y materion hyn yn rhannol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar 2017** i wella sgiliau'r gweithwyr addysg a gofal plentyndod cynnar a gyflogir mewn lleoliadau gofal plant a chwarae. Mae'r cynllun yn amlinellu newidiadau i safonau, hyfforddiant a chymwysterau i'r aelodau hynny o'r gweithlu. Mae yna hefyd ddyhead i wneud y

1 Yr eithriad yw mewn lleoliadau Dechrau'n Deg a ariennir, lle mae'n ofynnol i staff feddu ar gymwysterau uwch na'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer darpariaeth nas cynhelir.

sector yn ddewis gyrfa mwy deniadol.

Mae'r **dystiolaeth** yn glir fod cymarebau isel rhwng staff a phant yn fuddiol gan eu bod yn caniatáu i staff ganolbwyntio ar anghenion plant unigol. Mae'r cymarebau ar gyfer gofal plant yng Nghymru yn debyg i wledydd eraill y DU a **chyfartaledd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)**. Fodd bynnag, mewn lleoliadau yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r gymhareb a argymhellir, sef 1:8, yn uwch na chyfartaledd yr OECD, sef bron 1:14.

## Cynnwys, Dulliau ac Arferion Dysgu

Gall safonau cwricwlwm a dysgu (addysgeg) o fewn addysg a gofal plentyndod cynnar gael effaith sylweddol ar ddatblygiad plant. Maent yn arbennig o bwysig wrth sicrhau ansawdd cyson ar draws gwahanol leoliadau, gan gefnogi staff drwy roi arweiniad iddynt ar sut i wella dysgu a lles plant, a rhoi gwybod i rieni am yr hyn y gall addysg a gofal plentyndod cynnar ei wneud a'r hyn y gallant hwy ei wneud gartref fel rhieni.

Mae arferion dysgu a datblygu, a'r canlyniadau a'r dangosyddion a ddefnyddir i fesur cynnydd plant, yn cael eu pennu'n aml ar sail y farn gyffredinol ar blentyndod mewn gwlad. Mewn gwledydd lle mai 'parodrwydd ar gyfer yr ysgol' yw'r prif amcan, rhoddir blaenoriaeth i fesurau datblygu gwybyddol cenedlaethol (gweler y **ddadl** gyfredol yn Lloegr ynghylch cyflwyno'r **Nodau Dysgu Cynnar**). Mewn diwylliannau sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn, mae llai o bwyslais ar ragnodi arferion, a rhoddir yr un faint o sylw i ddatblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol ynghyd â blaenoriaethau lleol.

Yng Nghymru, mae'r Cyfnod Sylfaen yn darparu cwricwlwm sy'n defnyddio egwyddorion allweddol datblygiad plant i lywio arferion ar gyfer plant 3-7 oed. Er bod y 'blynyddoedd cynnar' yn un o **bum blaenoriaeth drawsbynciol** Llywodraeth Cymru, ac er bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ffocws penodol ar y '**1,000 o ddiwrnodau cyntaf'**, nid oes fframwaith tebyg ar gyfer plant 0-3 oed.

Ar y llaw arall, yn yr Alban mae'r **Fframwaith Blynyddoedd Cynnar** yn nodi dull gweithredu cyson ar gyfer darpariaeth o'r cyfnod cyn geni hyd at 8 oed. Mae'n cynnwys *Pre-Birth to Three: Positive Outcomes for Scotland's Children and Families*. Mae'r canllawiau cenedlaethol hyn yn cydnabod pwysigrwydd beichiogrwydd a blynyddoedd cyntaf bywyd wrth ddylanwadu ar ddatblygiad plant a chanlyniadau yn y dyfodol.

**Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar: Pwysigrwydd ansawdd:** Briff Ymchwil

**Dangoswyd** bod cael fframwaith cwricwlwm sy'n ymestyn ar draws bob agwedd ar addysg a gofal plentyndod cynnar yn hwyluso trosglwyddiadau llyfn i blant o un lleoliad i'r nesaf. O ystyried y diffyg parhad o ran darpariaeth a brofir gan lawer o blant ifanc yng Nghymru, ymddengys y gallai fframwaith arfer blynyddoedd cynnar ar gyfer pob oedran fod yn fuddiol iawn.

# Strwythurau sefydliadau

Un o'r prif gwestiynau o ran polisi a dewisiadau sy'n wynebu pob llywodraeth ym maes addysg a gofal plentyndod cynnar yw penderfynu sut i drefnu gwasanaethau i'w galluogi i wireddu eu blaenoriaethau polisi.

## Integreiddio 'Gofal' ac 'Addysg'

Yng Nghymru ac mewn llawer o wledydd eraill, mae gwasanaethau addysg a gofal plentyndod cynnar yn cael eu categoreiddio naill ai fel addysg gynnar neu ofal plant gyda'r rhaniad yn adlewyrchu gwahanol draddodiadau 'Gofal' ac 'Addysg'.

**Esblygodd gofal plant** yn ystod y 19eg ganrif fel mesur llesiant ar gyfer teuluoedd dosbarth gweithiol yn bennaf a oedd angen gofal i gefnogi cyflogaeth. Er bod rhywfaint o ddarpariaeth addysg gynnar hefyd yn bodoli ar yr adeg hon, ni chychwynnodd y mudiad cylchoedd chwarae cyn-ysgol tan y 1960au, ac fe'u ffurfiwyd yn bennaf gan rieni dosbarth canol a oedd eisiau paratoi plant yn well ar gyfer addysg ffurfiol. Mae yna dal gysylltiad rhwng 'Gofal' y blynyddoedd cynnar â rhieni sy'n gweithio, tra bod 'Addysg' y blynyddoedd cynnar yn cael ei ystyried yn fater mwy pwysig, ac yn hawl gyffredinol bellach mewn llawer o wledydd.

Er bod systemau ar wahân dal yn gyffredin, mae mwy a mwy o **dystiolaeth** yn dangos sut y gall gwahanu 'addysg' a 'gofal' danseilio'r gwaith o ddarparu addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd. Er na ellir sefydlu cyswllt achosol uniongyrchol, mae nifer o astudiaethau wedi canfod bod lefelau tlodi ac anghydraddoldeb ymhlith plant yn llawer is mewn gwledydd lle mae addysg a gofal yn cael eu hintegreiddio. Pan na fydd systemau wedi'u hintegreiddio - fel yng Nghymru - maent yn bodoli ochr yn ochr â lefelau cymharol uchel o anghydraddoldeb, lefelau is o gyflogaeth ymhlith mamau a thlodi plant (gweler **UNESCO, OECD, y Comisiwn Ewropeaidd)**.

Mae rhai'n dadlau mai'r rheswm am hyn yw am na roddir digon o sylw mewn systemau heb eu hintegreiddio i ddatblygiad gwybyddol plant 0-3 oed, ac am na roddir digon o sylw i ddatblygiad plant 3 oed a hŷn o ran iechyd a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Pan fo systemau wedi'u hintegreiddio, mae dull 'plentyn cyfan' yn golygu bod plant yn cael mwy o gyfle i ddatblygu gwahanol agweddau ar eu datblygiad ar eu cyflymder eu hunain. Felly, mae categorïau oedran yn llai pwysig a gall gwasanaethau ymgorffori nodau ar gyfer gofal ac addysg.

**Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar: Pwysigrwydd ansawdd:** Briff Ymchwil

Yng Nghymru, mae gwahanol Weinidogion yn gyfrifol am 'ofal' ac 'addysg' plant ifanc ar hyn o bryd. Mae yna hefyd wahanol ofynion cyfreithiol ar gyfer y ddau fath o leoliad:

- Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn nodi'r gofynion cofrestru ac arolygu ar gyfer gwarchod plant a gofal dydd i blant.
- Mae'r gwaith o arolygu lleoliadau sy'n gymwys i gael cyllid i ddarparu addysg i blant cyn oedran ysgol gorfodol yn cael ei reoli gan Atodlen 26 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005. Nodir manylion yn y Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu addysg a gofal mewn lleoliadau a reoleiddir, heblaw ysgolion, sy'n gymwys am gyllid ar gyfer addysg ran-amser, a gyhoeddwyd ar y cyd gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Ionawr 2019.

Trefnir y ddarpariaeth yn ôl oedran, ac ystyrir mai 'gofal' yw gwasanaethau i blant dan 3 oed a gynlluniwyd i gefnogi cyflogaeth rhieni. Pan fyddant yn 3 oed, gall plant gael mynediad i'r Cyfnod Sylfaen rhan-amser. Er bod y Cyfnod Sylfaen wedi'i gategoreiddio fel 'addysg', mae'n dilyn dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn, a elwir yn '**arfer sy'n briodol i ddatblygiad**'. Eto, gan mai dim ond **dyletswydd** i sicrhau bod o leiaf 10 awr yr wythnos o'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddarparu i blant oedran meithrin 3 a 4 oed sydd ar awdurdodau lleol, mae plant yn aml yn mynychu cyfuniad o leoliadau dros ddiwrnod neu wythnos.

> Nid yw'n anghyffredin yng Nghymru i blentyn 3 oed dreulio ei foreau mewn dosbarth meithrin ysgol a'r prynhawn mewn meithrinfa ddydd neu gylch chwarae cyn-ysgol. Yn y ddau leoliad gall ddilyn y Cyfnod Sylfaen, ac eto, mae'n yn cael ei gategoreiddio fel plentyn sy'n derbyn 'addysg' yn y bore, tra ei fod yn derbyn 'gofal' yn y prynhawn. I atgyfnerthu'r gwahaniaeth, mae dwy system reoleiddio, hyd at dair system arolygu wahanol2 a  nifer o ffrydiau ariannu gyda lleoliadau'n cael gwahanol symiau o dâl fesul awr. Ac eto, rydym ni'n siarad am yr un plentyn, gyda'r un anghenion datblygiadol a gofal.

Yn ôl **Yr Athro Peter Moss**, Athro Emeritws ym maes darpariaeth plentyndod cynnar yn Athrofa Addysg UCL, University College London, ni ddylid gwahanu gofal ac addysg yn y blynyddoedd cynnar. Mae angen y ddau i feithrin a datblygu'r plentyn cyfan. Dylid darparu'r ddau fel rhan o etheg sydd wedi'i hymgorffori'n llawn yn holl berthnasau ac arferion addysg a gofal plentyndod cynnar.

O ystyried y **dystiolaeth,** ymddengys fod gwahanu gofal ac addysg yn groes i **ddyheadau** Llywodraeth Cymru i blant gael y dechrau gorau mewn bywyd, er bod ymchwil ddiweddar gan **Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** yn nodi sut y gellid

2 Mae hyn yn newid i ryw raddau gyda chyflwyniad 'Arolygiadau ar y Cyd'.

cyflwyno system fwy cydlynol.

## Integreiddio Gweinyddol

Mae'r cyfrifoldeb o ran pwy a ddylai weinyddu addysg a gofal plentyndod cynnar yn amrywio'n fawr. Fel sy'n amlwg yn **Adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru,** mewn rhai gwledydd mae cyfrifoldeb wedi'i ddyrannu i un weinidogaeth, ac weithiau mae adrannau wedi'u cyfuno. Mewn gwledydd eraill, dynodir asiantaeth neu adran i gydlynu polisi ar draws ffiniau gweinyddol. Pa bynnag lwybr a ddilynir, mae'r **dystiolaeth** yn awgrymu mai'r systemau sydd wedi'u hintegreiddio'n gysyniadol ac yn strwythurol sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i blant – yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig.

Cwestiwn pwysig mewn llawer o wledydd yw i ba raddau y dylai gwasanaethau gofal gael eu hintegreiddio ymhellach yn y system addysg. Gyda'r seilwaith cyfyngedig presennol o ran addysg a gofal plentyndod cynnar, mae ysgolion yng Nghymru yn ganolbwynt naturiol i deuluoedd a phlant yn y rhan fwyaf o gymunedau. Fodd bynnag, mae llawer o **sylwebyddion** yn bryderus y gall ehangu gwasanaethau i faes addysg olygu bod y blynyddoedd cynnar yn mentro'n rhy bell i fyd yr ysgol ('**schoolification**'). Dylai'r egwyddorion sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen a'r **Cwricwlwm Newydd** liniaru hyn, ond mae **rhai arbenigwyr** yn ofni y gallai unrhyw bwysau i fabwysiadu cynnwys a dulliau'r ysgol gynradd gael effaith niweidiol ar brosesau dysgu a datblygu plant ifanc.

## Gwasanaethau Preifat, Gwirfoddol a Chyhoeddus

Mae yna gytundeb cyffredinol nad yw'n ddelfrydol ym mhob sefyllfa i lywodraeth ddarparu addysg a gofal plentyndod cynnar yn uniongyrchol, a bod rôl i'r sector preifat a'r sector gwirfoddol wrth gyflenwi gwasanaethau addysg a gofal plentyndod cynnar sy'n diwallu anghenion lleol.

Ar hyn o bryd mae gan Gymru farchnad gymysg o addysg a gofal plentyndod cynnar. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau 'gofal' yn cael eu darparu gan sefydliadau preifat neu wirfoddol, tra bod 88 y cant o 'addysg' cynnar y Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddarparu mewn ysgolion. Mae corff mawr o **dystiolaeth ymchwil** yn canfod yn gyson, wrth ddadansoddi'r rhan fwyaf o ddangosyddion, bod addysg a gofal plentyndod cynnar a ddarperir yn uniongyrchol gan y wladwriaeth yn cyflawni canlyniadau o ansawdd uwch a chanlyniadau gwell i blant. Mae'r Athro Plentyndod Cynnar **Helen Penn** yn dadlau mai'r rheswm am hyn yn y DU yw am fod y sector nas cynhelir yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd mewn amgylchedd hynod reoledig lle mae swm sylweddol o'i incwm yn cael ei 'sefydlogi' gan gymorthdaliadau'r llywodraeth. Gan fod y cymorthdaliadau hyn yn gysylltiedig yn bennaf â rhieni sy'n gweithio, nid oes llawer o gymhelliant i ddarparwyr weithredu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Felly, nid yw'r broblem o ran ansawdd isel yn deillio o'r math o wasanaeth a ddarperir, ond o'r system ariannu sy'n creu anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth fel nad oes modd sicrhau ansawdd a chydraddoldeb.

## Gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau wedi'u targedu

Os ystyrir bod addysg a gofal plentyndod cynnar o fudd i blant wrth iddynt ddatblygu'n gymdeithasol, yn wybyddol ac yn emosiynol, yn ogystal â hwyluso'r broses gyflogaeth i famau a sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd gwaith a bywyd teuluol, yna mae sefydliadau fel yr OECD a'r UE yn dadlau y dylid ei darparu'n gyffredinol.

**Hafaliad Heckman:** Mae damcaniaeth James Heckman, economegydd ac enillydd Gwobr Nobel, yn cyfrifo'r elw economaidd o fuddsoddi yn gynnar yn y plentyn. Mae ei ymchwil yn dangos y gall buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar arwain nid yn unig at wella cyfleoedd plant yn gyffredinol, ond gellir ei fesur yn uniongyrchol mewn gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus, gan gynnwys cyfiawnder troseddol, dibyniaeth ar les, beichiogrwydd yn yr arddegau, cyflawniad academaidd ac atgyfeiriad i addysg arbennig. Wrth ystyried yr enillion cynhyrchiant o hwyluso cyflogaeth i famau hefyd, amcangyfrifir bod yr adenillion economaidd yn sgil darparu gofal plant hyd at ddeg gwaith yn fwy na chostau darparu'r gwasanaeth.

Paradocs Heckman yw bod plant o deuluoedd llai breintiedig yn elwa'n anghymesur ac yn hwy o ofal plant o ansawdd uchel, o gymharu â phlant sy'n byw mewn amgylchedd teuluol mwy ysgogol neu fwy breintiedig.

Ar sail hyn, a **thystiolaeth gref** arall, mae consensws cynyddol ymhlith ymchwilwyr a llunwyr polisi bod symud tuag at ddarparu addysg a gofal plentyndod cynnar â chymhorthdal cyhoeddus yn flaenoriaeth ac yn rheidrwydd er mwyn cyflawni'r nod o leihau anghydraddoldeb.

Yng Nghymru, dim ond 10 awr yr wythnos o'r Cyfnod Sylfaen a gynigir yn gyffredinol. Er y gall fod cymorth ar gael ar gyfer pob ffurf arall ar addysg a gofal plentyndod cynnar (neu eu bod yn 'rhad ac am ddim' fel Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru) maent yn fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â chyflogaeth yn hytrach na chanlyniadau o ran datblygiad a chydraddoldeb. Fel y nodwyd gan y

**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**, mae risg y bydd polisïau o'r fath yn arwain at fwy o anghydraddoldeb gan fod plant difreintiedig mewn teuluoedd nad ydynt yn gweithio yn wynebu anfantais bellach drwy golli cymorth dysgu a datblygu cynnar hanfodol.

Er bod cyfyngiadau ariannol wedi llywio'r angen i dargedu ymyriadau addysg a gofal plentyndod cynnar lle mae eu hangen fwyaf yn y gorffennol (e.e. Dechrau'n Deg), canfu **astudiaethau diweddar** fod plant yn gwneud yn well mewn systemau cyffredinol lle mae amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd.

*Bydd y trydydd papur yn y gyfres hon yn trafod materion mynediad a chyllid yn llawn.*

**Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar: Pwysigrwydd ansawdd:** Briff Ymchwil

## Casgliad: Prif egwyddorion fframwaith ansawdd

Mae'r **dystiolaeth** nad yw darpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd gwael yn cynnig fawr ddim manteision i blant, teuluoedd a chymdeithas – ac y gallai gael effaith negyddol – yn ei gwneud yn bwysig i lunwyr polisi ganolbwyntio ar nodweddion darpariaeth sy'n gysylltiedig ag ansawdd da. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod ansawdd yn enwedig o bwysig i'r plant sy'n wynebu'r anfantais fwyaf.

Ymddengys fod nifer o brif egwyddorion ansawdd y mae angen eu hystyried ym mholisi Cymru er mwyn gwireddu potensial addysg a gofal plentyndod cynnar yn llawn.

- Byddai'n well cael hawl gyffredinol i ddarpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar yn hytrach na darpariaeth wedi'i thargedu, a hynny o enedigaeth i ddechrau addysg orfodol. Mae hyn yn cyd-fynd yn glir â'r cysyniad o **'gyffredinoliaeth gynyddol'** a fu'n flaenoriaeth wleidyddol benodol i'r Prif Weinidog.
- Mae **astudiaethau'n** awgrymu bod angen integreiddio polisïau cyhoeddus â chyllid digonol a theg i ddarparu gwasanaethau addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd – yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.
- Mae'r gweithlu addysg a gofal plentyndod cynnar yn hollbwysig. **Mae ffynonellau'n** awgrymu y dylai o leiaf hanner y staff feddu ar radd lefel baglor, dan amodau gwaith sy'n sicrhau cyfraddau trosiant isel - yn ddelfrydol â'r un statws a chyflog ag athrawon ysgol. Yng Nghymru, mae sgiliau iaith ymarferwyr hefyd yn hollbwysig wrth gyflwyno addysg a gofal plentyndod cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Mae addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel yn gysylltiedig â dull cwricwlwm cyson ar draws yr ystod oedran sy'n cyfuno fframwaith cenedlaethol eang â'r hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol.
- Bydd angen gwerthusiadau mewnol ac allanol i wella'r ddarpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar yn barhaus. Mae angen i hyn gynnwys yr holl randdeiliaid (gan gynnwys y Llywodraeth, awdurdodau lleol, lleoliadau, ymarferwyr, rhieni, cymunedau a phlant) gan ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o ansawdd.

## Deunydd darllen a argymhellir:

Bennett, J. a Tayler, C.P., 2006. Starting strong II: Early childhood education and care. OECD, Paris.

Litjens, I., 2013. Literature Review on Monitoring Quality in Early Childhood Education and Care. OECD, Paris.

Moss P. What place for 'care' in early childhood policy? Yn: *Sage Handbook of Early Childhood Policy.* Llundain Sage 2017. 256–67.

Rostgard T. 2018. Peer Review on "Furthering quality and flexibility of Early Childhood Education and Care" Y Comisiwn Ewropeaidd. Brwsel.

Penn, H. 2009. International Perspectives on Quality in Mixed Economies of Childcare. National Institute Economic Review, 207(1), 83–89

**Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar: Pwysigrwydd ansawdd:** Briff Ymchwil